
HM Government
Llywodraeth EM

# Proffiliau Llwyddiant

## Gallu Gwasanaeth Sifil



# Beth yw Proffiliau Llwyddiant?

Mae'r Fframwaith Proffil Llwyddiant yn cael ei gyflwyno i ddenu a chadw pobl sydd â thalent a phrofiad o sectorau amrywiol ac o bob ran o fywyd, yn unol ag ymrwymiad Cynllun Gweithlu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae'r Fframwaith Proffil Llwyddiant yn symud recriwtio i ffwrdd o ddefnyddio system asesu sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn unig. Mae'n cyflwyno fframwaith fwy hyblyg sy'n asesu ymgeiswyr yn erbyn amrywiaeth o elfennau drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau dethol. Bydd hwn yn rhoi'r cyfle gorau i ddod o hyd i'r person gorau ar gyfer y swydd, cynyddu perfformiad a gwella amrywiaeth a chynhwysiad.

Yr elfennau y gellir eu hasesu er mwyn dod o hyd i'r ymgeisydd gorau ar gyfer y rôl yw:

- **Ymddygiadau -** y gweithredoedd a gweithgareddau y mae pobl yn eu gwneud sy'n arwain at berfformiad effeithiol mewn swydd.
- **Cryfderau** - y pethau rydym yn eu gwneud yn rheolaidd, yn eu gwneud yn dda ac sy'n ein hysgogi.
- **Gallu** - y gallu neu'r potensial i berfformio i'r safon ofynnol.
- **Profiad** - y wybodaeth neu'r feistrolaeth o weithgaredd neu bwnc ag enillir trwy ymglymiad neu amlygiad iddo.
- **Technegol** - yr arddangosiad o sgiliau proffesiynol penodol, gwybodaeth neu gymwysterau.

Nid yw pob elfen yn berthnasol i bob rôl, felly dylai cynnwys y Proffil Llwyddiant fod yn wahanol ar gyfer gwahanol mathau o swyddi er mwyn gwella'r cyfle o gael y person gorau ar gyfer y swydd.

## Gallu Gwasanaeth Sifil

Gallu yw'r dawn neu'r potensial i berfformio i'r safon ofynnol.

Mae gan y Gwasanaeth Sifil set o brofion seicometrig a ddefnyddir i helpu i ragfynegi perfformiad yn y dyfodol, mae'r rhain yn cynnwys Prawf Rhesymu Ar Lafar a Phrawf Rhesymu Rhifiadol.

# Pam rydym yn asesu gallu

Wrth brofi'ch gallu, rydym am ddeall eich gallu ar gyfer math o waith penodol.

Rydym yn asesu gallu i helpu i ragweld perfformiad yn y dyfodol. Gall hyn helpu rheolwyr recriwtio i gael dealltwriaeth go iawn o weld a oes gennych y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl ac asesu eich addasrwydd ar gyfer y math o waith y mae'r Gwasanaeth Sifil yn ei wneud.

# Sut rydym yn asesu gallu

Gellir asesu gallu trwy ddefnyddio profion seicometrig, yn aml mewn fformat ar-lein ar y we. Gellir asesu gallu ar wahanol gamau o'r broses recriwtio ond yn aml mae'n cael ei wneud ar y dechrau.

Y profion mwyaf cyffredin a ddefnyddir yn y Gwasanaeth Sifil yw:

- Prawf Rhesymu ar Lafar (VRT) - i asesu eich galluoedd ar lafar.
- Prawf Rhesymu Rhifiadol (NRT) - i asesu eich galluoedd rhifiadol.

Sgorir y profion yn awtomatig a dywedir i chi a ydych wedi cyflawni'r meincnod pasio. Ni fydd y profion hyn yr unig ffurff o ddethol. Os byddwch yn pasio, byddwch yn derbyn gwybodaeth am y cam nesaf yn y broses recriwtio.

Efallai y bydd eich gallu yn cael ei asesu ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r Proffil Llwyddiant i gael darlun mwy cyflawn o'ch addasrwydd ar gyfer y rôl. Bydd y disgrifiad swydd yn amlinellu'r elfennau sy'n ofynnol ar gyfer y rôl a'r dull (au) dethol a ddefnyddir.

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn gweithlu amrywiol a chynhwysol ac rydym am eich helpu i ddangos eich potensial llawn waeth beth yw'r math o asesiad sy'n cael ei ddefnyddio. Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch i'n broses recriwtio, rhowch wybod i'r rheolwr recriwtio. Mae enghreifftiau o addasiadau yn cynnwys darparu dogfennau mewn print bras neu braille, yn caniatáu mwy o amser ar gyfer prawf neu gyfweliad neu ddarparu cymorth mewn canolfan asesu.